# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-14-06(p.7)

### Dyddiad: 19 Hydref 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Cynllun Cyflawni ar Dlodi Plant: Hynt y gwaith

#### Diben

Diben y papur hwn yw rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddatblygu cam cyntaf y cynigion yn y Cynllun Cyflawni ar Dlodi Plant.

#### Crynodeb/Argymhellion

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma.

#### Cefndir

Mae'r Cynllun Cyflawni ar Dlodi Plant (Atodiad 1), a ddatblygwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn cynnwys amryw o gynigion cyffredinol a phenodol o ran polisi. Cafodd Cam 1 y Cynllun ei ystyried gan y Cabinet ar 3 Ebrill 2006. Cytunwyd arno, a chafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 3 Mai. Mae swyddogion y Gyfarwyddiaeth Gymunedau yn y broses o weithredu'r cynigion ar y cyd â chydweithwyr ar draws Adrannau Llywodraeth y Cynulliad.

#### Ystyriaethau

#### Cerrig Milltir a Thargedau

Yn ogystal â'r cynigion cyffredinol a phenodol o ran polisi sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun, cytunodd y Cabinet y dylai'r Dirprwy Weinidog geisio tynnu ynghyd amryw o gerrig milltir trawsbynciol ar gyfer 2010 a thargedau ar gyfer 2020. Diben hyn fyddai mesur y cynnydd tuag at y nod a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r cerrig milltir a'r targedau arfaethedig yn cwmpasu'r pedwar prif faes polisi, sef Incwm a Gwaith; Addysg; Iechyd; a Thai.

Yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf, bu'r Dirprwy Weinidog yn cynnal cyfres o gyfarfodydd dwyochrog gyda'r Gweinidogion dros Addysg a Dysgu Gydol Oes; Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad; Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, ynghyd â chyda'r Prif Weinidog, i gytuno ar y cerrig milltir a'r targedau y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn

eu mabwysiadu i fesur y cynnydd tuag at ddileu tlodi plant. Ar y cyfan, mae'r targedau arfaethedig wedi eu cymryd o dargedau sy'n bodoli eisoes, y cytunwyd arnynt â Gweinidogion y portffolios perthnasol, ac maent yn cael eu llywio gan gynlluniau strategol Adrannol megis 'Y Wlad sy'n Dysgu 2'. Bydd y papur ar y cerrig milltir a’r targedau yn cynnwys ymrwymiadau gan nifer o’m cydweithwyr yn y Cabinet i leihau tlodi plant, ac mae’n ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i fonitro ein cynnydd yn rheolaidd, wrth inni geisio cyrraedd y cerrig milltir a’r targedau hyn. Mae’r papur i gael ei lansio yn y Senedd ddydd Llun, 23 Hydref, gan fy Nirprwy Weinidog.

## Prawfesur Tlodi Plant

Mae'r polisi cyffredinol cyntaf sy’n cael ei gynnig yng Nghynllun y Dirprwy Weinidog yn argymell y dylai holl fentrau newydd Llywodraeth y Cynulliad, ac ymrwymiadau newydd o ran gwariant, gael eu prawfesur ar gyfer tlodi plant. Cytunwyd i adolygu Erfyn presennol y Porth i Bolisïau - a ddefnyddir gan swyddogion i sicrhau bod polisïau'n cael eu datblygu a'u darparu i fodloni agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad, a'i hymrwymiadau i ddatblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol - i fynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi plant. Mae un cwestiwn yn yr Erfyn bellach yn mynd i'r afael ag effaith polisïau ar gymunedau difreintiedig yn benodol, a chwestiwn arall ar ddileu tlodi - yn arbennig mewn cysylltiad â phlant a'u teuluoedd. Bydd hyn nid yn unig yn tynnu sylw at dlodi plant, ond hefyd yn mynd i'r afael â'r ffaith nad yw bob person difreintiedig yn rhan o gymuned ddifreintiedig. Bydd gwybodaeth am yr hyn y gellir ei wneud i helpu i ddileu tlodi plant hefyd yn cael ei chynnwys yng nghanllawiau cyffredinol y Porth Polisïau, i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â thlodi plant a'r hyn y mae angen i swyddogion ei wneud i sicrhau bod eu polisïau yn mynd i'r afael â'r broblem yn well.

Bydd y Porth i Bolisïau a'r erfyn ei hun yn cael ei adolygu ar ddechrau trydydd tymor Llywodraeth y Cynulliad. Mae fy swyddogion wedi pwysleisio y dylai effaith y polisïau newydd ar dlodi plant fod yn nodwedd gref o unrhyw erfyn newydd, ac o’r canllawiau a ddaw gyda hwy, a fydd yn cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth y Cynulliad.

Cynhaliwyd ymarfer hefyd o fewn fy mhortffolio i nodi'r gwariant ar wasanaethau a mentrau plant. Bydd hyn yn llywio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws Llywodraeth y Cynulliad, a bydd yn destun papur a gaiff ei gyflwyno i Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn y dyfodol agos.

## Deddf Llywodraeth Cymru

Wrth ystyried y Cynllun, cytunodd y Cabinet hefyd y dylid annog y Dirprwy Weinidog i ystyried partneriaid allweddol, ac i ymgynghori â hwy ar y defnydd posibl o bwerau newydd Deddf Llywodraeth Cymru i weithredu cynigion mwy pellgyrhaeddol i fynd i'r afael â thlodi plant, wedi 2007. Yn ystod mis Gorffennaf, cyfarfu'r Dirprwy Weinidog ag amrywiol sefydliadau, megis y corff mantell Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, Achub y Plant a CLlLC, i gael eu barn ar y mater hwn, gan gynnwys y cynnig i orfodi'r sector cyhoeddus i wneud isafswm o waith i ymgysylltu â phlant mewn tlodi.

Yn ogystal ag ystyried mesur deddfwriaethol posibl, sy'n unigryw i Gymru, mae prosesau eraill nad ydynt wedi’u rhagnodi mewn deddfwriaeth yn cael eu hystyried. Er enghraifft, yng nghyd-destun yr

argymhellion sy'n deillio o Arolwg Beecham, gallai hyn olygu cynnwys targedau neu safonau i leihau tlodi plant fel rhan o’r broses o ddatblygu 'Contractau Gweithredu trwy Bartneriaeth' sy'n ceisio cyflawni canlyniadau cenedlaethol a lleol y cytunwyd arnynt sy’n gyffredin i ddarparwyr gwasanaethau. Mae fy swyddogion hefyd yn datblygu canllawiau ar baratoi Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, o dan Ddeddf Plant 2004, lle y bwriedir cyflwyno gofyniad am gynllunio strategol yn gysylltiedig â thlodi plant.

## Materion Eraill

Dechreuwyd ar waith ymchwil i ysgolion gyrfa y sector cyhoeddus, ac i'r posibilrwydd o gynnal rhaglen beilot o'r Rhaglen Urddas i Blant. Gan adeiladu ar lwyddiant y model 'On Track', nod hyn yw darparu system gymorth gofleidiol holistaidd ar gyfer pob plentyn sy'n byw mewn tlodi, eu teuluoedd a'u cymuned. Darparwyd cyngor ar ddatblygu ystod o bolisïau a dogfennau, gan gynnwys y Nodiadau Cyngor Technegol ar Chwaraeon a Hamdden, ac ar Drafnidiaeth.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r papur hwn.

## Themâu Trawsbynciol

Mae natur y polisïau ar dlodi plant yn golygu eu bod yn drawsbynciol. Bydd cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy hefyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion ymhellach, ac wrth eu rhoi ar waith.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r pwyllgor nodi'r cynnydd hyd yma a'r camau pellach sy'n cael eu cynnig.

Edwina Hart AM
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Enwau Cyswllt: Lynne Schofield/Tracey Breheny,
Uned Cydgysylltu Cyfiawnder Cymdeithasol, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau
Ffôn: 1586